

Diwrnod Cenedlaethol Windrush | Grant Windrush Cymru @77 | Canllawiau Gwneud Cais 2025

Yn dilyn cyflwyno Grantiau Windrush yn llwyddiannus ar gyfer 2022, 2023 a 2024, mae Race Council Cymru (dan arweiniad Hynafiaid Windrush Cymru) wedi gwneud cais llwyddiannus i weinyddu cynllun grantiau bach ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol Windrush | Windrush Cymru @ 77 ar gyfer 2025. Mae'n hanfodol nodi, wrth sicrhau'r contract hwn gan Lywodraeth Cymru, y bydd y grant yn cael ei asesu a'i ddosbarthu gan aelodau cenedlaeth Windrush gyda Llywodraeth Cymru yn arsylwi'r broses.

Isod mae rhai manylion i arwain eich proses ymgeisio:

Mae Diwrnod Cenedlaethol Windrush yn ddiwrnod sy'n anrhydeddu ac yn dathlu cyfraniadau 'Cenedlaeth Windrush'; enw ar gyfer pobl a gyrhaeddodd y DU rhwng 1948 – 1971 o wledydd y Caribî a'r Gymanwlad, a atebodd yr alwad i helpu i lenwi prinder llafur ac ailadeiladu'r Deyrnas Unedig ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

(Mae'r enw 'Windrush' yn cyfeirio at y llong MV Empire Windrush, a dociodd yn Tilbury ar 22 Mehefin 1948, gan ddod â gweithwyr o Jamaica, Trinidad a Tobago ac ynysoedd eraill i'r Deyrnas Unedig).

22 Mehefin 2025 fydd yr 8^{fed} Ddiwrnod Dathlu Windrush Cenedlaethol yng Nghymru. Mae Diwrnod Cenedlaethol Windrush yn arwyddocaol iawn ac edrychwn ymlaen at estyn allan yn eang i'n cymunedau ledled Cymru, i'ch gwahodd i wneud cais am y grant.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu nifer o ddigwyddiadau ledled Cymru dros yr 8 mlynedd diwethaf ac mae'n awyddus i sicrhau bod amrywiaeth eang o grwpiau a sefydliadau yn gallu cael mynediad at gyllid i ddarparu digwyddiadau ar gyfer eu cymunedau eleni.

Nodau

Pwrpas y cyllid hwn yw galluogi darparu digwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau i addysgu a dathlu Diwrnod Windrush/ Windrush Cymru @77, 2025.

Amcanion

- Darparu cyllid i alluogi amrywiaeth mor eang â phosibl o sefydliadau a grwpiau i gyflwyno gweithgareddau difyr, i ddathlu Diwrnod Windrush 2025

Pwy all wneud cais?

Mae Race Council Cymru'n galw am geisiadau gan grwpiau a sefydliadau cyfansoddiadol, sydd:

- Wedi eu lleoli ac yn gweithio yng Nghymru
- Yn gallu dangos tystiolaeth o allu i gynllunio, trefnu a chyflwyno digwyddiadau/ gweithgareddau a phrosiectau a darparu adroddiad ar ôl cwblhau gyda delweddau, fideos trwy WeTransfer, gwerthusiad gan y gynulleidfa ac ati.
- Yn gallu dangos ymgysylltiad â'u cymunedau lleol, cyfranogwyr neu gynulleidfaoedd a chynnwys mudwyr Cenhedlaeth Windrush a gwladolion y Gymanwlad yn eu prosiect.
- Yn gallu dangos tystiolaeth o'u dealltwriaeth o Windrush a sut y byddant yn rhannu gwybodaeth allweddol.
- Yn gallu dangos bod eu polisiâu llywodraethu, diogelu, cynhwysiant a chydaddoldeb ar waith ac yn cael eu dilyn.

Canllawiau Ariannu

- Gall grwpiau a sefydliadau cyfansoddiadol wneud cais am gyllid hyd at **£1500**
- Mae'r cyllid ar gyfer eitemau refeniw **yn unig** – staff prosiect, contractwyr, lluniaeth, deunyddiau, teithio ac ati.
- **NI** chaniateir unrhyw wariant cyfalaf

Meini Prawf Ariannu

Rhaid i geisiadau ddangos sut mae'r digwyddiad/gweithgaredd/prosiectau yn cyd-fynd â chanllawiau Windrush Llywodraeth Cymru o:

- Codi ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Cenedlaethol Windrush | Windrush Cymru @77
- Hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch Diwrnod Windrush
- Hyrwyddo cyfraniadau hanesyddol, economaidd a diwylliannol cenedlaeth Windrush i Gymru
- Darparu addysg neu hyfforddiant o amgylch cenedlaethau Windrush a'u cyfraniadau i Ddatblygiad Cymru.

Yn ogystal, rhaid i bob digwyddiad, gweithgaredd neu brosiect a ariennir gydnabod Llywodraeth Cymru (ynghyd â logos) fel cyllidwr.

Proses

- Rhaid e-bostio pob cais wedi'i gwblhau i windrush@racecouncilcymru.org.uk
- Rhif ffôn cyswllt Race Council Cymru (RCC): **03302290995**
- Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu gan banel penderfynu annibynnol sy'n cynnwys Henoed Windrush a Chynghreiriaid y Gymanwlad, a bydd personél Race Council Cymru yn darparu cefnogaeth a gweinyddiaeth. Gwahoddir swyddog o Lywodraeth Cymru i fynychu asesiad o geisiadau'r grant.
- Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o wybodaeth gan ymgeiswyr, pe bai angen rhagor o wybodaeth, yn ogystal â'r wybodaeth a gyflwynwyd ar y ffurflen gais.
- Bydd llythyr cynnig y dyfarniad yn cael ei e-bostio at ymgeiswyr llwyddiannus.

Amserlen Ariannu

- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael 75% o'r cyllid ar ôl derbyn cynnig dyfarniad wedi'i lofnodi ac ar ôl cyflwyno unrhyw wybodaeth a thystiolaeth bellach sydd eu hangen.
- Bydd y 25% sy'n weddill yn cael ei roi ar adeg asesiad o'r adroddiad terfynol / adroddiad gwerthuso ar ddiwedd y prosiect.

Adrodd a gwerthuso

- Bydd y templed adroddiad cwblhau yn cael ei ddosbarthu gan Race Council Cymru i bob sefydliad a ariennir a rhaid ei gwblhau erbyn y dyddiad cau o 19^{eg} o Fedi 2025.
- Rhaid i'r adroddiad cwblhau ddangos tystiolaeth o gyflawni, ymgysylltu a chael ei ategu gan ddelweddau, postadau cyfryngau cymdeithasol, posteri digwyddiadau gyda'r logos gofynnol fel y nodir yn y llythyr dyfarnu, gwerthusiad cynulleidfa / cyfranogwyr a data cydraddoldeb.

Meini Prawf Gwerthuso Dyfarnu Contract

Bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r dyfynbris mwyaf manteisiol yn economaidd o ran gwerth am arian ar sail y meini prawf canlynol, a restrir yn nhrefn pwysigrwydd gan gynnwys y pwysoliad sy'n berthnasol i bob maen prawf.

Sylwch y dylai eich dyfynbris a gyflwynir gynnwys yr holl gostau a ragwelir ar gyfer cynnal y digwyddiad, gan gynnwys Teithio a Chynhaliaeth. Gweler CThEF (www.gov.uk) am ganllawiau wrth gyfrifo costau teithio a chynhaliaeth.

Meini Prawf Gwerthuso	Pwysoliad
1. Ansawdd	75
2. Cost	25

Sefyllfa Ariannol & Adnoddau

Mae Race Council Cymru yn dymuno sicrhau bod gan ymgeiswyr y protocolau llywodraethu ac ariannol angenrheidiol ar waith, ynghyd â'r adnoddau i fodloni eu rhwymedigaethau trwy gydol cyfnod y contract hwn. Gall hyn gynnwys (pan fo'n briodol) ystyried lefel eich ymrwymadau gwaith presennol a'r effaith bosibl ar adnoddau y byddai dyfarnu contract yn ei chael.

Ymholiadau i windrush@racecouncilcymru.org.uk